04/03/26

# Adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, 2024/25

Trafnidiaeth Cymru



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

Cynnwys ..... 2
Cyflwyniad ..... 3
Ein stori ..... 3
Ein cytundebau gweithio mewn partneriaeth ..... 4
Cryfhau dealltwriaeth a datblygu cydweithwyr ..... 4
Amcanion llesiant ..... 5
  Amcanion Llesiant TrC ..... 5
Y camau nesaf ..... 7

# 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus penodol fel Trafnidiaeth Cymru (TrC) i weithio gydag undebau llafur. Mae gan y ddeddf ddisgwyliad clir bod sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gweithio ar y cyd â'u gweithlu a'u rhanddeiliaid.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn croesawu'r dyletswyddau newydd hyn ac mae'r adroddiad hwn yn nodi ein diweddariad blynyddol cyntaf, fel sy'n ofynnol o dan Adran 18 y Ddeddf. Mae'n dangos y cynnydd ystyrlon rydym wedi'i wneud –nid yn unig o ran bodloni gofynion y ddeddf ond hefyd o ran cofleidio ei gwerthoedd. Rydym yn parhau i adeiladu ar sylfeini cryf wrth i ni weithio i ehangu a dyfnhau ein dull o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn, a baratowyd gan ac a gytunwyd gyda phartneriaid undebau llafur cydnabyddedig TrC, yn dangos sut rydym ni, fel sefydliad, yn cynnal ein gwerthoedd: yn dod yngnyd fel un, yn gwneud y peth iawn i'n cydweithwyr a'n cymunedau, a herio ein hunain i wella'n barhaus y ffordd rydym yn darparu partneriaeth gymdeithasol.

Mae ein hymrwymiad yn parhau i fod yn glir: byddwn yn cynnal egwyddorion partneriaeth gymdeithasol drwy sicrhau bod gan ein cydweithwyr a'n rhanddeiliaid lais gwirioneddol wrth lunio dyfodol trafnidiaeth yng Nghymru. Trwy ymgysylltu parhaus, cydweithio agored a gwneud penderfyniadau ar y cyd, ein nod yw gwella amodau gwaith, codi safonau gwasanaeth a sicrhau gwell canlyniadau trafnidiaeth i'r bobl a'r cymunedau a wasanaethwn.

# 2. Ein stori

Sefydlwyd Trafnidiaeth Cymru gan Lywodraeth Cymru i drawsnewid sut mae pobl yn teithio ledled Cymru drwy hyrwyddo opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy, integredig.

Trwy welliannau mawr (megis moderneiddio'r fflyd trenau, buddsoddi ym Metro De Cymru a chefnogi ymgysylltiad diwylliannol) mae TrC yn parhau i adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth mwy gwyrdd a mwy cysylltiedig sy'n gwella'r profiad teithio i gymunedau ledled Cymru.

Rydyn ni yma i wneud teithio cynaliadwy yn ddewis naturiol ac i helpu i frwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd. Rydym am i bobl ymddiried ynom a chredu ynom ac ymrwymo i newid eu hymddygiad, gan wneud eu rhan dros ddyfodol pob un ohonom. Boed yn drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded, olwynio neu feicio, rydym am wneud teithio cynaliadwy nid yn unig y peth iawn i'w wneud, ond hefyd yn y peth haws i'w wneud.

# 3. Ein cytundebau gweithio mewn partneriaeth

Rydym yn cynnal cytundebau partneriaeth cryf gyda phedwar partner undeb llafur, gan feithrin perthnasoedd gwaith adeiladol, cydweithredol a chadarnhaol. Rydym yn falch o fod yn gweithio ochr yn ochr â:

- ASLEF
- RMT
- TSSA
- Unite.

Rydym yn gweithredu fforymau sefydledig sy'n galluogi deialog strwythuredig ac ystyrlon gyda'n partneriaid undebau llafur, gan gryfhau perthnasoedd a chefnogi cydweithredu effeithiol.

Mae ein Cyfarfod Partneriaeth Holl Raddau chwarterol yn dod â'n partneriaid undeb llafur a'n Tîm Arwain Geithredol at ei gilydd i rannu diweddariadau ar brosiectau sefydliadol allweddol ac i drafod materion sy'n effeithio ar gydweithwyr, gan gynnwys datblygu polisi, lles a materion deddfwriaethol. Rydym yn cynnal cyfarfodydd misol o Gyngor y Cwmni a gaiff ei gynnal mewn modd mwy penodol a strwythuredig.

Rydym hefyd yn darparu ystafell gyfarfod ddiogel i'n partneriaid undeb llafur sydd a digon o le i ddeg o bobl. Mae gan yr ystafell gyfleusterau TG i gefnogi cyfarfodydd o bell a bleinds ar gyfer cyfrinachedd.

# 4. Cryfhau dealltwriaeth a datblygu cydweithwyr

Ein nod yw ymgorffori'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yn ein diwylliant sefydliadol, gan sicrhau y caiff pob penderfyniad ei wneud ar y cyd ac y caiff pob llais ei glywed. Rydym wedi cymryd camau ystyrlon i gefnogi cydweithwyr i ddeall y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a'r hyn y mae'n ei olygu i'w profiad gyda TrC. Cyflwynir cydweithwyr newydd i'r ddyletswydd trwy ein llyfr gwaith cydweithwyr, sy'n tynnu sylw at y gwerth a roddwn ar gyfraniad, cydweithredu a thryloywder.

Rydym hefyd wedi datblygu Modiwl Partneriaeth Gymdeithasol ar ein platfform iLearn i helpu cydweithwyr i ddeall ymhellach. Mae'r modiwl yn esbonio sut mae'r ddyletswydd yn gweithio'n ymarferol a sut mae'n cyd-fynd â'n gwerthoedd sefydliadol. Mae hyn yn cefnogi cydweithwyr i

gael werthfawrogi yn fwy fyth sut rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau a phwysigrwydd llais cydweithwyr.

# 5. Amcanion llesiant

Mae ein hamcanion llesiant yn adlewyrchu ein hymrwymiad i'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy a meddwl yn yr hirdymor wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae ein hamcanion wedi'u cynllunio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl i bob un o'r saith nod llesiant ac i gyd-fynd â phum ffordd o weithio'r Ddeddf: meddwl yn yr hirdykor, atal, integreiddio, cydweithredu a chynnwys.

Fel sefydliad trafnidiaeth a theithio, rydym yn cydnabod ein sefyllfa unigryw i ddylanwadu ar gysylltedd, datblygiad economaidd, iechyd a lles, cynaliadwyedd amgylcheddol a thegwch cymdeithasol ledled Cymru. Adeiladwyd ein hamcanion trwy gyfaddawd a chonsensws yn ein Cyfarfod Partneriaeth Holl Raddau chwarterol ac yn sgil trafodaethau â'n gweithlu. Maent yn adlewyrchu ein hymrwymiad i greu rhwydwaith trafnidiaeth aml-ddull hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon sy'n gwasanaethu cymunedau yng Nghymru yn well.

## Amcanion Llesiant TrC

### Galluogi pobl a chymunedau

Byddwn yn cynnwys y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac yn gweithio gyda nhw i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n cyfrannu at Gymru fwy cyfartal ac iachach, gan sicrhau bod pawb yn hyderus i'w defnyddio.

Trwy ymgysylltu â phobl leol mewn prosesau cynllunio, byddwn yn diwallu anghenion cyunedau amrywiol a gwahanol. Bydd hyn yn ein galluogi i ddylunio llwybrau a gwasanaethau sy'n adlewyrchu gofynion y byd go iawn. Yn ogystal, byddwn yn hyrwyddo opsiynau fel cerdded, olwynio a beicio. Bydd hyn yn gofyn am greu seilwaith sy'n annog symud corfforol ac yn lleihau rhwystrau i wasanaethau hanfodol. Byddwn yn darparu gwybodaeth deithio glir, yn cynnig hyfforddiant i ddefnyddwyr llai hyderus ac yn sicrhau bod ein systemau trafnidiaeth yn hawdd eu defnyddio.

Ein nodau yw lleihau anghydraddoldebau trafnidiaeth, gwella cysylltedd cymunedol, cefnogi iechyd corfforol a meddyliol, a grymuso pobl i deithio'n annibynnol.

Drwy ein dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned, byddwn yn creu system drafnidiaeth sy'n gwasanaethu pawb yng Nghymru a'r gororau.

## Budd i'r amgylchedd

Byddwn yn datblygu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n cefnogi bioamrywiaeth, yn gwella cydnerthedd ecosystemau, yn gwella ansawdd aer ac yn cynyddu effeithlonrwydd adnoddau.

Drwy gydweithio'n agos â chymunedau lleol, asiantaethau amgylcheddol a rhanddeiliaid, byddwn yn dylunio atebion cludiant arloesol sy'n lleihau allyriadau niweidiol ac yn cyfrannu'n weithredol at ddiogelu treftadaeth naturiol gyfoethog Cymru.

Byddwn yn gweithredu strategaethau sy'n hyrwyddo cerbydau trydan a charbon isel, yn datblygu coridorau cludiant gwyrdd, ac yn integreiddio egwyddorion dylunio cynaliadwy sy'n cefnogi systemau bywyd gwyllt ac ecolegol lleol.

Byddwn yn cynyddu effeithlonrwydd adnoddau trwy ddull economi gylchol, gan ddewis deunyddiau a dulliau adeiladu sy'n lleihau effaith amgylcheddol, a chreu rhwydweithiau trafnidiaeth sy'n cefnogi cadwraeth bioamrywiaeth.

Rydym yn adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n gatalydd ar gyfer adfywio ecolegol a chydnerthedd yr hinsawdd. Bydd hyn yn sicrhau bod ein seilwaith trafnidiaeth yn gwella amgylchedd naturiol Cymru ar gyfer cenedlaethau nawr ac yn y dyfodol.

## Cefnogi ardaloedd lleol a'r economi

Byddwn yn adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n cyfrannu at uchelgeisiau economaidd ehangach Cymru ac yn helpu cymunedau lleol i ffynnu. Bydd ein dull yn alinio seilwaith trafnidiaeth â nodau datblygu economaidd. Bydd hyn yn creu cyfleoedd i fusnesau lleol, cefnogi cyflogaeth, ac yn hybu ffyniant rhanbarthol.

Byddwn yn mabwysiadu'r datblygiadau technolegol diweddaraf, gan integreiddio atebion fel tocynnau deallus, cysylltedd digidol, a systemau trafnidiaeth deallus i wella effeithlonrwydd a phrofiad y defnyddiwr. Bydd mynd i'r afael â fforddiadwyedd trafnidiaeth yn flaenoriaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod ein rhwydwaith yn hygyrch i bob grŵp economaidd-gymdeithasol, gan greu mynediad teg at waith, addysg a gwasanaethau hanfodol.

Trwy gynllunio ar y cyd ag awdurdodau lleol, busnesau, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid cymunedol, byddwn yn dylunio system drafnidiaeth sy'n cefnogi twf rhanbarthol, yn ysgogi arloesedd, ac yn creu cyfleoedd ystyrlon i'r cymunedau a wasanaethwn.

## Dyrchafu iaith a diwylliant Cymru

Byddwn yn creu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n cefnogi'r Gymraeg, yn galluogi mwy o bobl i gael mynediad at weithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol ac yn diogelu ac yn gwella'r amgylchedd hanesyddol.

Byddwn yn parhau i integreiddio arwyddion Cymraeg, cyfathrebu dwyieithog a sensitifrwydd diwylliannol yn ein seilwaith a'n gwasanaethau. Byddwn yn dylunio rhwydweithiau trafnidiaeth sy'n gwneud lleoliadau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol yn fwy hygyrch trwy opsiynau cludiant carbon isel a fforddiadwy.

Trwy gydweithio â sefydliadau diwylliannol lleol, arbenigwyr treftadaeth a grwpiau cymunedol, byddwn yn creu rhwydwaith sy'n cysylltu pobl â chyrchfannau diwylliannol, tirweddau hanesyddol a safleoedd treftadaeth. Byddwn yn lleihau effaith ein prosiectau ar amgylcheddau hanesyddol drwy ddefnyddio technegau dylunio sensitif.

Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau i ddeall y cysylltiad rhwng cludiant, teithio, hunaniaeth ddiwylliannol a chadwraeth amgylcheddol. Byddwn yn dathlu'r Gymraeg, yn cefnogi bywiogrwydd diwylliannol, ac yn gweithredu i warchod ein treftadaeth hanesyddol a naturiol.

Trwy'r weithio mewn ffordd sy'n ystyried popeth, ein nod yw lleoli teithio fel llwyfan i gysylltu pobl, gofalu am ein diwylliant a gwella cymunedau Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am ein hymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gael yma Datganiad llesiant | Trafnidiaeth Cymru

# 6. Y camau nesaf

Byddwn yn parhau i gryfhau ein hymrwymiad i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol drwy ehangu'r tîm sy'n ymroddedig i'r gwaith hwn. Yn 2025, rydym yn bwriadu tyfu'r tîm i dri chydweithiwr llawn amser, gan gynnwys aelod newydd sy'n ymuno drwy raglen brentisiaeth TrC. Mae cynyddu ein gallu wedi ein galluogi i ymgorffori'r dull partneriaeth yn fwy strategol o fewn ein prosesau gwneud penderfyniadau, ffurfioli Cytundeb Partneriaeth Gymdeithasol, a sicrhau y cynhelir ein cysylltiadau ystyrlon â'n partneriaid undeb llafur. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cydweithwyr yn arwain ac yn dylanwadu ar bob penderfyniad a wnawn. Bydd yn ein helpu i gyflawni ein cenhadaeth o un rhwydwaith, un amserlen ac un tocyn trwy gael un tîm sy'n cynnwys ein partneriaid undeb llafur.